Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Ddydd Camau Bach
# Canolfan Integredig Mudiad Meithrin
# Boulevard San Brieuc
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 1PD
# Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 17, 18 2013

**gan**

**Branwen Llewelyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Meithrinfa Camau Bach yng Nghanolfan Integredig Mudiad Meithrin ar gyrion tref Aberystwyth. Agorwyd ym mis Awst 2004 fel canolfan breifat wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Plant 1989 sy'n cynnig gofal ac addysg dydd llawn i hyd at gant a phump o blant hyd at bedair blwydd oed trwy gyfrwng y Gymraeg. Mudiad Meithrin yw perchennog Camau Bach ac mae pwyllgor is-gwmni o Fudiad Meithrin yn ei reoli. Mae pencadlys y Mudiad wedi'i leoli uwchben y feithrinfa. Ar yr un llawr ceir cyfleusterau hyfforddiant a chynadledda. Mae Cylch Meithrin Ti a Fi Aberystwyth yn defnyddio ystafell benodedig ar lawr isaf yr adeilad ger y feithrinfa. Cynigir clybiau cyn ac ar ôl ysgol i blant rhwng pedair ac un mlwydd ar ddeg oed. Meithrinfa ddydd yw hon ac mae hi ar agor am bum deg un wythnos o 8.00 y bore tan 6.00 yr hwyr. Cynhelir sesiynau'r Cylch Meithrin yn ôl canllawiau cydnabyddedig Mudiad Meithrin rhwng 9.00 y bore a 11.30 y bore am bum bore'r wythnos yn ystod tymhorau'r ysgol.

Adeg yr arolygiad roedd yna saith deg pedwar o blant rhwng dwy a phedair oed wedi'u cofrestru i ddefnyddio gwasanaeth y feithrinfa yn ystod yr wythnos. Mae tri deg dau 'r rhain sydd rhwng dwy a hanner a thair blwydd oed wedi'u cofrestru ar sail ar sail amser llawn neu ran amser. Chwe phlentyn sydd â lleoedd sydd wedi'u hariannu. Daw dau o'r rhain o gartrefi Cymraeg eu hiaith a phedwar o gartrefi Saesneg. Nid oes un plentyn o gartref sydd a'r Saesneg yn ail iaith iddynt. Mae croeso i blant o gefndiroedd ethnig. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw blentyn rhwng tair a phedair blwydd oed sydd ag anghenion addysg ychwanegol yn mynychu'r lleoliad. Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n freintiedig nac o dan anfantais economaidd.

Adeiladwyd y feithrinfa i'r pwrpas ac mae digon o le i'r plant fwynhau amrywiaeth o weithgareddau diddorol tu fewn a thu allan. Yn ogystal â'r ystafell benodol sydd ar gyfer y plant tair blwydd oed mae ystafell sensori, neuadd aml bwrpas ac ystafell gelf. Mae yna gegin, ystordai a thoiledau addas. Mae'r amgylchfyd tu allan yn cynnwys gardd sensori, man chwarae dan do ac ardal llawr meddal.

Y rheolwr sydd a'r cyfrifoldeb o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd ac fe'i hapwyntiwyd tri mis yn ôl. Mae ganddi'r cymhwyster NVQ lefel 3. Mae pedwar o ymarferwyr yn cael eu cyflogi i weithio gyda'r plant tair blwydd oed ac maent i gyd yn meddu ar gymwysterau priodol i'r blynyddoedd cynnar. Nid yw'r rheolwraig yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant fel y mae'r ddwy arweinyddes. Roedd arolygiad diwethaf Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar 4 Hydref 2012 ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn ym Mehefin 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- mae cyflawniadau a chynnydd y plant yn dda o'u man cychwyn;
- mae'r plant yn teimlo'n hapus a diogel;
- mae'r plant yn mwynhau profiadau diddorol;
- maent yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- mae'r addysgu'n dda, a'r
- asesu drwy arsylwi a'r defnydd effeithiol a wneir o hyn i gynllunio'r camau nesaf.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda oherwydd:

- mae diwylliant o fyfyrio proffesiynol yn datblygu sydd wedi ei seilio ar hunanarfarnu;
- safon dda'r arweinyddiaeth;
- ymrwymiad y lleoliad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, a'r
- gwaith tîm effeithiol.

## Argymhellion

R1. Gwella ar sgiliau iaith Gymraeg y plant

R2. Sicrhau nad yw’r addysgu wedi’i orgyfeirio

R3. Gwneud mwy o ddefnydd o’r ardal tu allan er mwyn datblygu medrau’r plant ymhob maes dysgu

R4. Gwella’r system o gofnodi asesiadau drwy arsylwi i’w wneud yn fwy hydrin

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob plentyn yn cyflawni'n dda o'i fan cychwyn a'i gyfnod datblygiad a gwna pob plentyn gynnydd da ym mhob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Dealla a chyflawna'r mwyafrif yn gywir gyfarwyddiadau ac atebant gwestiynau yn briodol. Wrth siarad defnyddia'r mwyafrif frawddegau llawn gydag anogaeth yr oedolion. Gwrandawant gyda diddordeb ar stori gan ganolbwyntio'n dda a chydadrodd darnau adnabyddus. Datblyga'r mwyafrif eirfa eang a defnyddiant hon wrth chwarae rôl. Mae ganddynt wybodaeth dda am batrymau iaith ond nid yw pob un eto yn eu defnyddio'n gyson.

Hoffant ganu caneuon yn fawr iawn ac ynganant yn glir. Mwynha'r mwyafrif bori drwy lyfrau ac ânt i ddewis llyfrau o'u gwirfodd a'u trafod fel darllenwyr. Mae pawb yn mwynhau gwneud marciau y tu fewn ac yn yr ardal tu allan ac arbrofant yn hyderus ag ystod eang o ddeunyddiau. Defnyddia pob plentyn iaith fathemategol gywir wrth gymharu hyd, taldra neu faint pethau wrth chwarae. Defnyddia'r mwyafrif eu bysedd i rifo ac adnabyddant siapau cyffredin. Datblygant eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda wrth ddefnyddio'r cyfrifiadur a rhaglenni cyfrifiadurol a'r chwaraewr cryno ddisg. Dangosa'r plant i gyd fedrau creadigol da wrth chwarae rôl ac yn eu gwaith celf a dawns.

Datblyga'r plant i gyd lefelau da o annibyniaeth, hunanhyder, a hunanlywodraeth. Gall y mwyafrif ganolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth chwarae ac archwilio eu hamgylchedd y tu allan ac maent i gyd yn mwynhau eu dysgu.

**Lles: Da**

Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau yn y cylch. Rhydd y berthynas agos a chynnes rhwng yr oedolion a'r plant ymdeimlad o ddiogelwch a boddhad iddynt. Mae hunanhyder a hapusrwydd y plant yn dangos eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu a dangosant hwythau, yn eu tro, barch a hoffter tuag at yr oedolion. Mae'r plant yn dangos consyrn tuag at ei gilydd, yr ymarferwyr ac ymwelwyr. Y maent yn gwrtais bob amser a dangosant ystyriaeth tuag at eraill. Gwna'r mwyafrif ffrindiau yn y feithrinfa ac y maent yn hoff o'i gilydd.

Mae pob plentyn yn deall bod bwyta'n iach, hylendid dannedd a chadw'n heini'n bwysig i'w hiechyd ac enwant fwydydd iach a phethau na ddylent fwyta. Mwynhânt fwyta byrbryd gyda'i gilydd bob dydd ac maent yn ymddwyn yn hyfryd wrth y ford. Mae pob plentyn yn mynd i'r tŷ bach ar ei ben ei hunan ac yna'n golchi ei ddwylo.

Mae gan bawb agwedd gadarnhaol a brwdfrydig tuag at ddysgu gan gymryd rhan weithredol ac egnïol yn eu profiadau dysgu tu fewn a thu allan gan ymddwyn yn dda. Gwna'r holl blant benderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu ac y mae bron pob

plentyn yn hyderus iawn. Maent oll yn mwynhau eu hymweliadau i'r parc a'r siopau yn y gymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae safon y cynllunio'n dda. Mae'r ymarferwyr yn gwerthuso darpariaeth a chanlyniadau'r wythnos. Maent yn trafod cyraeddiadau, cynnydd ac anghenion pob plentyn ac yn ystyried yr asesiadau drwy arsylwi a wneir. Maent yn cynnwys y plant yn y cynllunio trwy ofyn iddynt am eu diddordebau a beth maent yn hoffi gwneud. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r holl wybodaeth hon i fwydo'r cylch nesaf o ddarpariaeth; o ganlyniad, mae'r cynllunio yn ymateb yn dda i ddiddordebau ac anghenion y plant. Cynllunnir ystod o brofiadau dysgu diddorol a gweithredol sydd yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio'n hyblyg ac mae'r ymarferwyr yn ei addasu i gwrdd â diddordebau'r plant. Mae'r oedolion yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordebau'r plant yn dda ac mewn ffordd sydd yn ystyrlon iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i'r plant i ddatblygu'n ddysgwyr brwdfrydig, hyderus ac annibynnol ac i ddatblygu medrau creadigol, corfforol, ieithyddol a mathemategol da. Maent yn hyrwyddo datblygiad medrau creadigol da drwy ddarparu cyfleoedd i baentio lluniau gwreiddiol o'u harsylwadau. Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd da i archwilio'u hamgylchedd naturiol drwy archwilio yn y parc a phlannu a thyfu hadau. Maent yn dysgu am ddatblygiad cynaliadwy trwy gasglu bwyd gwastraff a chasglu papur a phlastig i'w ail-gylchu.

Drwy ymwneud â'u profiadau diddorol a chydweithio o fewn cymuned ddysgu'r lleoliad caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu perthynas gadarn gydag eraill. Maent yn dangos parch a goddefgarwch at bawb gan gynnwys pobl o gefndiroedd diwylliannol eraill

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i siarad Cymraeg trwy'r amser ac yn ymestyn eu hiaith trwy rigymau, caneuon a straeon sydd yn cynnwys iaith gyfoethog a geirfa eang. Maent yn dathlu diwylliant Cymreig mewn ystod o ffyrdd gan gynnwys cynnal cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi, dathlu dydd santes Dwynwen a thrwy ymweld â llefydd yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r thema, er enghraifft, Pentre Bychan.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am ddatblygiad plentyn ac mae hyn yn rhoi sail dda a chyfeiriad i'r ddarpariaeth. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn yn ôl ei gyfnod datblygu. Mae ymddygiad yn cael ei reoli mewn ffordd sensitif a chadarnhaol ac o ganlyniad mae'r plant yn dysgu tueddfrydau gydol oes gan gynnwys pwysigrwydd dangos parch, sensitifrwydd a charedigrwydd tuag at eraill. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod o strategaethau dysgu diddorol i symbylu'r plant yn effeithiol.

Ar y cyfan mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gwestiynau i ymestyn dysgu'r plant ond nid yw'r cwestiynu bob amser yn ddigon heriol i ymestyn medrau meddwl y plant. Mae'r dysgu gorau yn digwydd pan fydd y plant yn dewis beth y maent am wneud ac yn cael digon o amser i archwilio a mwynhau eu profiadau. Mae'r staff yn ymyrryd yn effeithiol yng ngweithgareddau'r plant wrth iddynt chwarae er mwyn ymestyn eu dysgu ar y cyfan. Mae'r trefniant yn hyblyg weithiau ac yn rhoi cyfleoedd da i'r plant wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu a hyrwydda'n dda eu hannibyniaeth. Fodd bynnag, caiff y trefniant ei orgyfeirio ar adegau. Mae'r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda ac mae ganddynt berthynas glos gyda phob un ohonynt. Mae'r plant yn mwynhau profiadau yn yr ardal tu allan ond annigonol yw'r cyfleoedd a gânt i brofi'r rhain.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda. Maent yn asesu drwy arsylwi ar y plant wrth eu profiadau dysgu gan nodi pethau arwyddocaol ac yn trafod eu canfyddiadau gyda'i gilydd ond mae'r system a ddefnyddir yn anhydrin. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn effeithiol i fwydo'r cylch nesaf o gynllunio. Cedwir cofnodion parhaus o gynnydd y plant a chynhwysa'r rhain wybodaeth ddefnyddiol sydd yn cofnodi cyflawniad pob plentyn. Derbynia'r rhieni adroddiadau am gyflawniadau a chynnydd eu plant pan fyddant yn gadael y feithrinfa i fynd i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr wedi creu awyrgylch cartrefol a chynhwysol yn y lleoliad ac mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus a hapus yno. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi ac mae'r ymarferwyr yn dangos parch tuag at eu syniadau a'u diddordebau.

Maent yn datblygu yn dda ymwybyddiaeth y plant o'r pwysigrwydd o fwyta'n iach ac o gadw'n heini trwy ddarparu byrbryd pod dydd o laeth, tost a grawnfwyd a thrwy sesiynau ymarfer corff. Caiff chwilfrydedd y plant am eu bywydau a chredoau eu hunain a phlant eraill ei ddatblygu'n dda drwy ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd, a Diwali, dillad gwisgo lan o ddiwylliannau eraill a thrwy straeon. Mae'r plant yn dweud gweddi cyn mynd tuag adref a dathlant y prif wyliau Cristnogol megis y Nadolig, Y Pasg a Sul y Mamau. Maent yn datblygu synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas yn dda drwy'r cyfleoedd y maent yn cael i ymweld â'r parc a thrwy ofalu am lindys.

Mae'r oedolion yn meithrin y moesau hynny y maent yn credu sydd yn angenrheidiol i ddatblygiad pob plentyn. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd trwy ddilyn esiampl bersonol y staff. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi'r plant i gymdeithasu'n dda, cymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth dda o fyw a rhannu yn eu cymuned fach. Caiff y plant gyfleoedd i wneud penderfyniadau a dewisiadau a mwynhânt bob gweithgaredd a gynigir iddynt.

Mae'r trefniadau effeithiol sy'n bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad a lles cyffredinol ac yn cefnogi eu dysgu. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol ar gyfer diogelu plant ac mae'r staff yn ymwybodol ohono ac yn gwybod yn dda'r camau i'w cymryd. Mae pob un wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac mae'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer diogelu'n weithredol, yn bodloni rheoliadau diogelu ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen yn dda a chaiff pob plentyn fynediad i bob maes dysgu a'r holl brofiadau dysgu a ddarperir.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes a chynhwysol yn bodoli yn y lleoliad. Mae'r oedolion yn dangos hoffter a charedigrwydd tuag at bob un a chaiff pob plentyn ei werthfawrogi. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u hanghenion a diddordebau yn dda ac ymatebant i'r rhain gan ddefnyddio eu gwybodaeth dda o gefndiroedd y plant. Mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i bob agwedd ar y cwricwlwm ac mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. O ganlyniad i'r hoffter a pharch at y plentyn a'r safonau moesol a ddangosir gan y staff, datblyga'r plant oddefgarwch, agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac ymddygiad da iawn. Mae'r plant yn dangos diddordeb mewn, a charedigrwydd tuag at, eu cymheiriaid, oedolion ac ymwelwyr.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r gymhareb oedolion i blant yn dda a medda'r staff ar gymwysterau priodol. Mae'r staff yn mynd i'r afael â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus a derbynia'r plant brofiadau diddorol sydd yn ymateb yn dda i'w diddordebau a'u cyfnod datblygu. Mae'r adeilad wedi'i gynllunio yn unig swydd ar gyfer ei bwrpas ac mae ganddo gyfleusterau da iawn. Mae'r ystafell yn rhoi digon o le i'r plant fwynhau eu profiadau. Defnyddiant y neuadd ar gyfer byrbrydau a'r ystafell sensori a'r ardal tu allan am brofiadau gwahanol.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau cadarnhaol i ddelio â phroblemau ymddygiad gormesol, hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol sy'n hysbys i bawb. Caiff y rhain eu monitro a'u gweithredu'n effeithiol. Cofrestrir y cylch gan y AGGCC ac nid oedd unrhyw argymhellion yn yr adroddiad diwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinyddion yn rhoi cyfarwyddyd clir i holl fywyd y lleoliad a'r broses o welliant ac mae'n llwyddo creu ethos cadarnhaol a hapus. Maent yn cydweithio'n dda gyda'r rheolwraig a'r ymarferwyr ac maent yn rhannu egwyddorion ac amcanion clir sydd wedi'u seilio ar wybodaeth o ddatblygiad plentyn. Gwelir y rhain yn cael ei gweithredu trwy'r profiadau dysgu gweithredol a gaiff y plant.

Mae pawb yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl er lles y plant. Mae'r arweinyddion a'r rheolwraig yn cydweithio wrth

gynllunio'n strategol ar gyfer dyfodol y lleoliad. Maent yn rhannu'r gwerthoedd, nodau ac amcanion y maent am eu hyrwyddo drwy esiampl bersonol a thrwy drafodaeth gyson. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain, o'r staff ac o'r plant yn ogystal â thargedau sy'n sicrhau safonau da o gyflawniad. Caiff cynnydd tuag at eu cyflawni ei fonitro'n gyson.

Mae'r rheolwraig yn ymwybodol o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad ac yn deall a chyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae hi'n gwybod am berfformiad y lleoliad ac yn defnyddio gwybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol. Mae hi'n cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn llawn. Mae'r arweinwyr yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a'r awdurdod, er enghraifft, gofynion y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'i hunanarfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arwain at strategaethau ar gyfer gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn. Mae'r arweinyddion yn ymgynghori gyda'r staff, rhieni a gofalwyr i fwydo'r hunan arfarnu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir oddi wrth y rhieni i gywain barnau ac adnabod meysydd i'w datblygu. Maent yn gwneud defnydd hefyd o gefnogaeth athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol ac mae'r staff yn gweithredu ei hargymhellion yn effeithiol.

Yn sgîl y broses o hunan arfarnu cynhyrchwyd cynllun gwella lleoliad sydd yn dangos ymwybyddiaeth dda o berfformiad y lleoliad ac sydd yn canolbwyntio ar godi safonau trwy osod targedau i wella'r ddarpariaeth.

Mae'r ymarferwyr yn cael cyfweliad blynyddol gyda'r rheolwraig i reoli perfformiad ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol. Maent yn mynychu cyrsiau hyfforddiant mewnswydd yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin er mwyn datblygu dulliau newydd o addysgu. Gwelir effaith gadarnhaol o hyn ar addysgu a lles y plant wrth iddynt weithredu'r hyn y maent wedi dysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n dda gydag eraill i gyflwyno profiadau dysgu. Mae'r arweinyddion yn gweithio'n agos ac effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol. Mae canlyniadau cadarnhaol o'r bartneriaeth hon i'w gweld yn y gwelliannau yn y ddarpariaeth a safonau. Mae'r feithrinfa'n gweithio'n effeithiol gyda'r swyddog Mudiad Meithrin hefyd i wella ar y ddarpariaeth.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda'r rhanddeiliaid, yn enwedig y rhieni, ac maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau ganddynt. Mae partneriaeth dda gyda'r ysgol hefyd sy'n hyrwyddo trosglwyddiad y plant pan fyddant yn gadael.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ymarferwyr yn cael eu lleoli’n dda er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o’u harbenigedd a sicrhau darpariaeth dda. Mae’r staff yn defnyddio adnoddau y tu fewn yn effeithiol er mwyn darparu profiadau diddorol i’r plant. Maent yn mesur effaith yr adnoddau ar y dysgu a’r addysgu ac yn cynllunio ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol. Nid ydynt, fodd bynnag, yn defnyddio’r ardal tu allan yn barhaol i ddatblygu medrau’r plant ymhob maes dysgu.

Ar y cyfan, gwna’r arweinwyr y defnydd gorau o adnoddau’r lleoliad ac o’r cyllid i gynnig y ddarpariaeth orau. Mae’r lleoliad yn blaenoriaethu ei wariant i ymateb i’w dargedau ar gyfer gwelliant. Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu gwerthuso’n effeithiol gan y rheolwraig er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol wrth godi safonau. Mae’r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae pob plentyn yn gyfforddus wrth siarad gydag ymwelydd a dywedant eu bod yn hapus iawn yn y cylch. Maent yn sôn am eu ffrindiau ac yn dweud eu bod yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn anhapus neu'n gofidio am rywbeth..

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Branwen Llewelyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| | |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |